# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 12 Mehefin 2025 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, James Elson, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Terry Mendies (Cadeirydd), Will Price ac Andrea Tomlin

Roedd yr Aelod Arweiniol dros Strategaeth Gorfforaethol, Polisi, Cydraddoldeb ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julie Matthews, yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor ar gyfer eitem fusnes 6.

Arsylwr – Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW); Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HVE), Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni (RL), Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol (EH), Cydlynydd Craffu (RhE), Uwch Weinyddwr Pwyllgorau (Hwylusydd) (KJ), Gweinyddwr Pwyllgorau (RhTJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Gareth Sandilands.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganodd unrhyw aelodau gysylltiad personol, neu gysylltiad personol sy'n rhagfarnu ag unrhyw un o'r eitemau a restrwyd i'w trafod.

## 3 PENODI ÎS-GADEIRYDD

Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer swydd Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar gyfer blwyddyn gyngor 2025/26. Enwebodd y Cynghorydd Carol Holliday y Cynghorydd Gareth Sandilands ar gyfer rôl Is-Gadeirydd, eiliodd y Cynghorydd Ellie Chard yr enwebiad. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill, felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: Ethol y Cynghorydd Gareth Sandilands yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar gyfer blwyddyn gyngor 2025/26.***

Gan fod y Cynghorydd Sandilands wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau i'r cyfarfod, dywedodd y Cynghorydd Holliday ei bod wedi trafod gydag ef ei bwriad i'w enwebu ar gyfer y rôl. Roedd wedi cydsynio i'w enw gael ei gyflwyno.

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 6 Mai 2025:

Cywirdeb: tudalen 8, ail baragraff yn y fersiwn Saesneg dylid newid y gair 'how' i 'have'.

tudalen 11, paragraff olaf ond un yn y fersiwn Saesneg, dylid newid y gair 'needed' i 'need'.

Felly:

***Penderfynwyd*: yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 6 Mai 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.**

Materion yn codi: Tudalen 8, Cofnodion y cyfarfod diwethaf - hysbysodd y Cynghorydd Andrea Tomlin y Pwyllgor bod y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i 'Adolygu Cyflwyniad y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd' wedi cynnal ei gyfarfod agoriadol yr wythnos flaenorol. Roedd wedi penderfynu cymryd y cam anarferol o benodi cyd-gadeiryddion, un o ogledd y sir a'r llall o'r de, er mwyn rhannu'r llwyth gwaith. Roedd y cyfarfod cyntaf wedi bod yn sesiwn gynhyrchiol o rannu syniadau i gasglu'r holl themâu perthnasol y byddai angen eu harchwilio fel rhan o'r adolygiad. Nid oedd dyddiad wedi'i drefnu eto ar gyfer cyfarfod nesaf y Grŵp, ond byddai'n cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos.

## 6 HUNANASESIAD PERFFORMIAD Y CYNGOR 2024 I 2025 AC ADRODDIAD DIWEDDARU PERFFORMIAD HYDREF 2024 I FAWRTH 2025

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Strategaeth Gorfforaethol, Polisi, Cydraddoldeb ac Asedau Strategol ynghyd â Phennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HVE), Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni (RL), Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol (EH), Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad o 2024 i 2025 ac Adroddiad Diweddariad ar Berfformiad o Hydref 2024 i Fawrth 2025 (dosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Pwyllgor. Esboniwyd bod yr adroddiad yn cyflwyno Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad rhwng 2024 a 2025, gan ddarparu dadansoddiad diwedd blwyddyn o'r cyflawniadau a'r heriau mewn perthynas ag amcanion perfformiad allweddol y Cyngor (themâu'r Cynllun Corfforaethol), ynghyd ag Adroddiad Diweddariad ar Berfformiad yr Awdurdod o fis Hydref 2024 i fis Mawrth 2025.

Cafodd y Pwyllgor ei dywys trwy'r adroddiad a oedd yn cynnwys Crynodeb Gweithredol (Atodiad I) yn tynnu sylw at berfformiad yn erbyn amcanion a'r saith maes llywodraethu; yr Adroddiad Diweddariad ar Berfformiad o fis Hydref 2024 i fis

Mawrth 2025 (Atodiad II); manylion y gweithgareddau gwella a nodwyd trwy drafodaethau hyd yma, ynghyd â’r adroddiad Llais y Dinesydd newydd (Atodiad III).

Wrth fyfyrio, dywedodd yr Aelod Arweiniol y dylai’r Cyngor fod yn falch o’r hyn a gyflawnwyd dan amgylchiadau anodd dros y deuddeng mis diwethaf, a bod tystiolaeth glir o gyflawni i safonau uchel.  Tynnodd sylw at y pum cyflawniad allweddol dros y cyfnod hwn a’r pedwar her allweddol a meysydd i’w gwella fel y nodir yn Atodiad I.

Diolchodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau i’r Tîm Cynllunio Strategol am gynhyrchu’r ddogfennaeth a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am eu hawgrymiadau a’u sylwadau yn dilyn eu trafodaeth.

Rhoddodd y Swyddog Cynllunio Strategol a Gwella gyd-destun pellach, gan ddweud bod 20% (16) o ddangosyddion y cynllun corfforaethol wedi cael eu categoreiddio’n “goch” ac y byddai’r tîm yn gweithio i ragatal dangosyddion yn y dyfodol i osgoi gwaethygu ac ymgymryd â gwaith pellach i wneud adroddiadau’n haws eu defnyddio.  Ymhelaethodd ar sawl maes perfformiad ardderchog - “gwyrdd”, tueddiadau perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad amrywiol eraill, ynghyd â meysydd “coch” lle wynebir heriau.

Diolchodd y Cadeirydd i’r aelod arweiniol a’r swyddogion am yr adroddiad trylwyr cyn i Aelodau drafod y pwyntiau canlynol ymhellach -

- Teimlai rhai aelodau bod cymhlethdod y cynnwys yn gwneud yr adroddiad yn anodd ei ddarllen ac argymell bod y dogfennau’n cael eu gwneud yn haws i’w defnyddio a’u darllen. Awgrymodd aelodau hefyd y gellid cynnwys graffiau a thablau yn yr adroddiad i sicrhau bod y data’n haws i’w olrhain a byddai’n darparu darlun cliriach o dueddiadau perfformio. Ymatebodd swyddogion trwy egluro bod angen i’r holl ddogfennau gydymffurfio â gofynion hygyrchedd, felly ni fyddai graffiau a thablau yn cyrraedd y safonau gofynnol. Fodd bynnag, byddent yn ymchwilio i’r mater ymhellach i weld a fyddai modd eu hymgorffori mewn rhyw ffordd yn adroddiadau’r dyfodol.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oedd y budd-ddeiliaid a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr arolwg budd-ddeiliaid yn cynnwys aelodau staff. Yn unol â'n dyletswyddau statudol, roedd y grwpiau a wahoddwyd i gymryd rhan yn yr arolwg yn cynnwys: trigolion Sir Ddinbych; staff y Cyngor (er bod arolwg staff ar wahân ar waith); Cynghorwyr Sir; Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned; Busnesau lleol; Undebau Llafur; ac unrhyw fudd-ddeiliaid eraill y mae'r Cyngor yn gweithio gyda nhw, megis y trydydd sector neu sefydliadau elusennol/gwirfoddol. Roedd gan yr aelodau bryderon y byddai trigolion/ budd-ddeiliaid yn cael trafferth llywio a dilyn y wybodaeth yn yr adroddiad. Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith bod y prif benawdau a chanfyddiadau yn yr adroddiad i'w cael yn y crynodeb gweithredol, nad oedd yn rhy feichus i'w ddarllen.

- Trafodwyd yr Arolwg Llais y Dinesydd a’r ymatebion a dderbyniwyd. Datganodd y swyddogion eu bod yn fodlon â’r ymatebion a dderbyniwyd.  Er nad oedd y gyfradd ymateb yn uchel roedd wedi cyrraedd y trothwy cyfradd

ymateb ystyrlon.  Serch hynny, byddai angen gwneud mwy o waith wrth fynd ymlaen i sicrhau nad oedd unrhyw anghydbwysedd neu ragfarn gyda'r adborth a dderbynnir. Hysbyswyd yr aelodau o ragfarn hunan-ddethol (a elwir hefyd yn rhagfarn gwirfoddolwr) sy'n gallu digwydd pan fo unigolion yn gallu dewis a ydynt am gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil. Yn aml, gall barn y rheiny sy'n dewis cymryd rhan fod yn wahanol i farn y rheiny sy'n dewis peidio.  Gan hynny, mae gan hwn y potensial i gael effaith arwyddocaol ar ganfyddiadau cyffredinol yr ymchwil ac arwain at sampl rhagfarnllyd. Roedd gwaith ymchwil ar y gweill ar hyn o bryd mewn ymgais i ganfod dull mwy dibynadwy o gynnal y math hwn o ymchwil boddhad / canfyddiad y cyhoedd yn y dyfodol.

- Awgrymodd aelodau bod nifer gwirioneddol ar gyfer pob blwyddyn yn cael eu dangos yn yr adroddiadau crynodeb yn ogystal â chanrannau gan y byddai hyn yn gwneud newidiadau o un flwyddyn i'r llall yn haws i'w dilyn. Cyfeiriodd aelodau at ddata a goladwyd ac awgrymwyd defnyddio cymaint o ddulliau coladu ag sy'n bosibl i gymharu'r data. Byddai hyn yn rhoi golwg fwy eang ar y sefyllfa a gallai o bosibl liniaru pryderon a phroblemau o ran rhagfarn.
- Diolchodd y swyddogion i aelodau am eu hawgrymiadau ar sut i wneud y dogfennau'n haws i'w darllen a'u defnyddio gan breswylwyr. Cytunwyd y dylid archwilio dichonoldeb ychwanegu hyperddolenni a dulliau eraill. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth wrth yr aelodau y gellid defnyddio'r data yn yr adroddiad i'w roi yn rhaglenni gwaith cyfarfodydd craffu yn y dyfodol, yn enwedig ar gyfer meysydd lle roedd gan aelodau bryderon.
- Teimlai rhai aelodau o'r Pwyllgor nad oedd yr adroddiad yn amlygu'n llawn y dirywiad mewn rhai elfennau o fewn gwaith y Cyngor, gan eu bod nhw a'u preswylwyr o'r farn bod rhai meysydd yn gwaethygu mwy a mwy. Gyda'r rhagolygon yn dangos na fydd y bwlch ariannu'n gwella yn y dyfodol agos, a gyda rhaglen trawsnewid busnes yn cael ei datblygu, a phrosiectau eraill wedi methu'n ddiweddar neu wedi wynebu problemau difrifol wrth eu cyflwyno, roedd hyn yn achosi problemau mawr i'r Cyngor, ac roedd delwedd gyhoeddus y Cyngor yn cael ei difrodi. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn deall rhwystredigaeth rhai aelodau gyda rhai agweddau ar yr adroddiad a rhai prosiectau, a chytunwyd bod angen gwella rhai meysydd, megis cyfathrebu ag aelodau a'r cyhoedd mewn perthynas â'r prosiectau mawr parhaus. Fodd bynnag, roedd y materion hyn yn cael eu harchwilio'n drylwyr trwy nifer o wahanol sianeli, ac roedd gwersi yn cael eu dysgu bob amser a byddai hynny'n parhau i ddigwydd.
- Rhoddodd y Pwyllgor sylwadau am y disgwyliad y dylai Craffu ymgysylltu'n fwy aml â phreswylwyr er mwyn i well penderfyniadau gael eu gwneud. Roedd hwn yn rhywbeth yr oedd Archwilio Cymru yn awyddus i Graffu ei wneud. Sut allai Craffu wneud hyn ac ychwanegu gwerth at yr adroddiad a drafodir?  Dywedodd swyddogion y byddent yn croesawu unrhyw beth y gallai'r pwyllgor craffu ei wneud i'w cynorthwyo gyda'u gwaith, megis gwaith posibl i gynyddu ymgysylltiad.  Er enghraifft, gallai'r Pwyllgor ddewis materion perfformiad penodol o fewn yr adroddiad i'w harchwilio'n fanwl gyda'r Aelodau Arweiniol a swyddogion perthnasol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.  Gallai aelodau'r Pwyllgor amlygu'r materion hyn gyda'u preswylwyr trwy eu sianeli cyfathrebu eu hunain, cyfryngau cymdeithasol ac ati, a gwahodd preswylwyr i gymryd rhan yn y gwaith o graffu ar y materion yn y ffordd honno.  Gellid archwilio dulliau ymgysylltu posibl eraill e.e. sioeau

teithiol ac ati. Fodd bynnag, gan fod angen cynnal cyfarfodydd ffurfiol fel cyfarfodydd hybrid, yr unig leoliad y gellid ei ddefnyddio i'w darlledu ar y wefan oedd Siambr y Cyngor yn Neuadd y Sir. Ymgymerodd swyddogion â chodi'r mater gyda Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ac archwilio'r posibiliadau o gynnwys erthygl ar Graffu yn y dyfodol mewn rhifyn o 'Llais y Sir' sydd wedi'i ail-lansio.

- Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith bod, ar yr olwg gyntaf, nifer y dangosyddion coch yn yr adroddiad yn rhoi rhagolwg pesimistaidd. Fodd bynnag, roedd gwahanol arlliwiau o goch, rhai yn waeth nag eraill ac roedd yn bwysig canolbwyntio ar y tueddiadau o fewn pob mesur. Roedd angen i'r cyhoedd wybod nad oedd popeth yn negyddol.
- Codwyd pryderon ynghylch cyfathrebu, a'r effaith bosibl ar staff pan adroddir straeon negyddol yn unig yn y wasg. Credai'r Pwyllgor y gallai cyfathrebu gyda phreswylwyr mewn modd clir, cryno a hawdd ei ddeall liniaru'r risg o adroddiadau negyddol yn y wasg a'r cyfryngau am y Cyngor a'i weithgareddau. Holodd aelodau hefyd a oedd modd gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â gwybodaeth anghywir / gamarweiniol gan bobl ynglŷn â gwaith y Cyngor. Dywedodd swyddogion bod ymdrin â gwybodaeth anghywir yn anodd gan ei fod yn waith dwys o ran adnoddau. Byddai'n llawer gwell pe gallai'r Cyngor fod un cam ymlaen a chyfathrebu'n effeithiol gyda phreswylwyr wrth i sefyllfaoedd ddatblygu, roedd dull gweithredu rhagweithiol bob amser yn well nag un adweithiol. Serch hynny, roedd angen cael cydbwysedd rhwng rhannu gwybodaeth werthfawr a chael eich cyhuddo o ddosbarthu propaganda.
- O ran mynd i'r afael â newid hinsawdd, roedd y mater bob amser wedi cael ei ystyried yn flaenoriaeth wella. Er bod cynnydd yn cael ei wneud roedd yn galonogol gweld bod y Cyngor yn dryloyw ac yn cydnabod y ffaith y byddai'n anodd cyrraedd y targed yr oedd wedi'i osod iddo'i hun ar gyfer 2030. Fodd bynnag, roedd yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn yr agwedd hon ar ei waith, a oedd yn ganmoladwy.
- Roedd gan aelodau bryderon ynglŷn â'r cynnydd hyd yma yn y gwaith i ddarparu'r agenda trawsnewid. Dywedodd swyddogion bod hwn yn faes gwaith cymhleth gan ei fod yn cyfuno ffyrdd o arbed arian gyda datblygu modelau busnes newydd i ddarparu gwell gwasanaethau. Roedd nifer o brosiectau'n cael eu datblygu e.e. gofal maeth mewnol, gofal yn y cartref a digidoli. Roedd adnoddau ychwanegol wedi cael eu rhoi o'r neilltu i gefnogi datblygiad prosiectau trawsnewid busnes a byddai'r prosiectau hyn yn cael eu cyflwyno i Graffu pan fyddent wedi'u datblygu'n ddigonol.
- Cadarnhawyd bod y Gweithgor a sefydlwyd i fesur effaith lleihau oriau agor Llyfrgelloedd / Siop Un Alwad ar breswylwyr, cymunedau a'r awdurdod ac archwilio cynigion neu ddatrysiadau amgen er mwyn gwella a/neu ymestyn darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol, yn disgwyl rhoi adroddiad o'i ganfyddiadau i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2025.

Yn dilyn trafodaeth ddwys:

***<u>Penderfynwyd</u>: yn amodol ar y sylwadau uchod -***

***(i) rhoi ystyriaeth i'r awgrymiadau a wnaed gan y Pwyllgor mewn perthynas â chamau gweithredu gofynnol i ymateb i faterion***

***perfformiad a amlygwyd yn yr adroddiadau a gyflwynwyd, ac ar ddarpariaeth data a fformatio ar gyfer adroddiadau monitro perfformiad yn y dyfodol;***

***(ii) cadarnhau cynnwys y Crynodeb Gweithredol: Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad o 2024 i 2025, Adroddiad Diweddaru am Berfformiad y Cynllun Corfforaethol Hydref 2024 i Fawrth 2025, ac Adroddiad Llais y Dinesydd i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2025; a***

***(iii) wrth lunio'r argymhellion uchod, rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r negeseuon allweddol a gododd o'r Hunanasesiad ac Adroddiad Diweddaru Perfformiad Hydref 2024 i Fawrth 2025, yn enwedig i'r Camau Gweithredu Gwella a nodwyd.***

## 7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) gan ofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor (Atodiad 1 yr adroddiad).

Yn ystod ei chyflwyniad, tynnodd sylw'r aelodau at y paragraff yn yr adroddiad eglurhaol a oedd yn hysbysu'r aelodau fod yr adroddiad am y System Meddalwedd Cynllunio, a oedd i fod i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod presennol, wedi'i ohirio tan gyfarfod mis Tachwedd, gyda chydsyniad yr Is-gadeirydd, yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, yn dilyn cais gan swyddogion. Sail y cais i ohirio oedd natur gymhleth y wybodaeth yr oedd angen ei chasglu a'i chyflwyno mewn adroddiad cynhwysfawr ac ystyrlon i'r Pwyllgor.

Mynegodd rhai aelodau o'r Pwyllgor eu bod yn siomedig gyda'r oedi wrth gynhyrchu'r adroddiad fel y bwriadwyd yn wreiddiol a gyda'r broses o hysbysu'r Pwyllgor am ei ohirio. Roeddent yn teimlo y byddai peidio â chael cyfle i graffu ar y mater ar yr amser penodedig gwreiddiol yn atal aelodau rhag cynnig eitemau i'w Craffu yn y dyfodol. Rhoddodd y Cydlynydd Craffu sicrwydd i'r Pwyllgor fod gohirio'r adroddiad wedi'i gytuno yn dilyn y broses sefydledig ar gyfer cytuno ar ohirio. Cadarnhawyd hyn gan y Swyddog Monitro a ddarllenodd ddatganiad hefyd gan y Rheolwr Datblygu, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad a roddodd rywfaint o gefndir i gyflwyniad y system feddalwedd Cynllunio newydd a'r rhesymeg dros geisio gohirio'r adroddiad, gan gynnwys pwysigrwydd ymgorffori canfyddiadau adolygiad diweddar a gynhaliwyd gan Archwilio Mewnol o'r newid i system TG newydd yn yr adroddiad terfynol. Unwaith y byddai canfyddiadau'r adolygiad wedi'u derbyn, byddai camau gwella yn cael eu nodi a'u datblygu gan grŵp tasg a gorffen arfaethedig. Byddai'r holl wybodaeth hon wedyn yn sail i adroddiad cynhwysfawr i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2025. Cafodd yr aelodau sicrwydd gan y Swyddog Monitro bod Craffu yn cael ei arwain gan aelodau ac y dylai fod felly bob amser. Dywedodd swyddogion, drwy aildrefnu adroddiad ar y rhaglen waith, gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd, y byddai'n sicrhau na fyddai eitem yn cael ei 'golli' ond y byddai'n cael ei harchwilio ar yr amser mwyaf priodol i ychwanegu gwerth at y broses graffu ar ôl i'r Pwyllgor gael yr holl ddata a ffeithiau gofynnol. Gofynnodd y Cadeirydd i'r adroddiad, pan gaiff ei gyflwyno, gynnwys manylion am p'un a oedd y cyflenwr meddalwedd wedi cael ei dalu'n llawn, ac a oedd y contract yn cynnwys unrhyw gymalau cosb ariannol.

Teimlai rhai aelodau y dylid ymgynghori â'r aelod a gynigiodd yr eitem i'w harchwilio gan y Pwyllgor Craffu, yn ogystal â'r Cadeirydd, ynghylch unrhyw geisiadau a dderbynnir i ohirio eitem tan gyfarfod yn y dyfodol.  Cytunodd y Swyddog Monitro godi'r awgrym hwn gyda'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu (SCVCG).

Roedd cyfarfod nesaf y SCVCG i fod i gael ei gynnal ar 30 Mehefin 2025 ac anogwyd aelodau i lenwi'r ffurflen gynnig (Atodiad 2) os oedd ganddynt unrhyw eitemau a oedd, yn eu barn nhw, yn haeddu craffu manwl.

Roedd Atodiad 3 yn yr adroddiad yn cynnwys rhaglen waith y Cabinet er gwybodaeth i'r aelodau ac roedd Atodiad 4 yn amlinellu'r cynnydd hyd yma gyda'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf.

Wrth ddod â'r drafodaeth i ben:

***Penderfynwyd**: yn amodol ar yr uchod, cadarnhau Rhaglen Waith y Pwyllgor fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm.